EFYDD/BRONZE

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Lefel Efydd

Ebrill 2021

# Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Lefel Efydd

**Cynulleidfa**
Sefydliadau sy'n darparu gwaith ieuenctid yng Nghymru.

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y safonau ansawdd, dangosyddion a disgrifyddion gradd ar gyfer Lefel Efydd y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, ac yn darparu gwybodaeth i sefydliadau ei defnyddio wrth gwblhau templed hunanasesu sydd ar gael gan y contractiwr. Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd ag *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyflwyniad a chanllawiau*.

**Camau i'w cymryd**
Gall sefydliadau ddefnyddio'r Safonau Ansawdd Lefel Efydd hyn fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu darpariaeth gwaith ieuenctid neu i arwain y broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig er mwyn ymgeisio am Lefel Efydd y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Y Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: gwaithieuenctid@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru/marc-ansawdd-gwaith-ieuenctid

**Dogfennau cysylltiedig**
*Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Cyflwyniad a chanllawiau* (2021); *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Lefel Arian* (2021); *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Lefel Aur* (2021); *Y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Canllawiau ar gyfer aseswyr* (2021).

© Hawlfraint y Goron 2021 WG42137 ISBN digidol 978 1 80195 257 6

# Cynnwys


Cyflwyniad i Lefel Efydd y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2

Safonau Ansawdd y Lefel Efydd 3

Safon Ansawdd: 1.1 Rheoli perfformiad 6

Safon Ansawdd: 1.2 Ansawdd ymarfer gwaith ieuenctid 10

Safon Ansawdd: 1.3 Dysgu a datblygiad pobl ifanc 16

Safon Ansawdd: 1.4 Gofynion cyfreithiol 22

Crynodeb a’r camau nesaf 27

# Cyflwyniad i Lefel Efydd y Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Mae’r Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (y cyfeirir ato er mwyn hwyluso darllen y ddogfen hon fel ‘y Marc Ansawdd’) yn adnodd unigryw ar gyfer hunanasesu, cynllunio gwelliant ac ennill Marc Ansawdd ar gyfer gwaith ieuenctid. Mae wedi’i rannu’n dair lefel – Efydd, Arian ac Aur. Mae’r ddogfen hon yn berthnasol i Lefel Efydd y Marc Ansawdd.

Y llwybr mynediad i broses y Marc Ansawdd yw’r Lefel Efydd. Hwn yw’r cam cyntaf ac mae’n canolbwyntio ar ddiben, strwythur, fframwaith polisi a dulliau darparu’r sefydliad ar gyfer darparu gwaith ieuenctid o ansawdd uchel. Dyma’r gonglfaen ar gyfer y broses asesu. Ar y lefel hon, bydd sefydliadau’n dangos sut y daethant i fodolaeth, pam y cawsant eu sefydlu a beth maent yn disgwyl ei gyflawni drwy eu darpariaeth. Mae’n rhaid i sefydliadau ddangos bod ganddynt arweinyddiaeth a llywodraethiant priodol, prosesau monitro a gwerthuso, eu bod yn ddiogel ac yn gweithredu o fewn fframwaith cyfreithiol o bolisïau, a’u bod yn darparu amgylchedd croesawgar a diogel i bobl ifanc sy’n gallu cael mynediad at staff a gwirfoddolwyr medrus y maent yn ymddiried ynddynt.

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn nodi gweledigaeth am ddyfodol lle:

> *“mae pob person ifanc yn ffynnu, ac yn cael mynediad at gyfleoedd a phrofiadau, yn y Gymraeg a’r Saesneg, sy’n rhoi mwynhad ac yn cyfoethogi eu datblygiad personol drwy waith ieuenctid”.*

Mae’r Lefel Efydd yn cynnwys rheoli perfformiad, ansawdd gwaith ieuenctid, dysgu a datblygiad pobl ifanc, a gofynion cyfreithiol.

## Safonau Ansawdd y Lefel Efydd

Ym mhob un o lefelau'r Marc Ansawdd mae pedair safon ansawdd ac ym mhob safon ansawdd mae nifer o 'ddangosyddion' cysylltiedig. Fel rhan o broses ymgeisio'r Marc Ansawdd, mae gofyn i sefydliadau ddarparu tystiolaeth i gefnogi pob dangosydd.

Gall sefydliadau ddefnyddio'r safonau ansawdd hyn fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu gwaith ieuenctid, eu cwricwlwm a'u darpariaeth. Gallant hefyd gyfrannu at neu weithredu fel canllaw yn y broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig er mwyn ymgeisio am y Marc Ansawdd.

Mae'r Safonau Ansawdd y Lefel Efydd, sy'n canolbwyntio ar y cerrig sylfaen ar gyfer gwaith ieuenctid o ansawdd uchel, wedi'u rhestru yn y tabl isod.

| **Efydd: Mae pobl ifanc yn ddiogel ac yn gallu ffynnu.** | |
|---|---|
| **Safon ansawdd** | **Dangosyddion** |
| **1.1 Rheoli perfformiad** | Mae gan y sefydliad ddatganiad neu weledigaeth sydd wedi'i nodi'n glir ac mae ganddo strategaeth a/neu gynllun(iau) ar gyfer ei waith gyda phobl ifanc.<br><br>Mae cynllun sy'n dangos sut mae'r sefydliad yn mesur effaith ac effeithiolrwydd ei waith gyda phobl ifanc.<br><br>Mae'r sefydliad yn defnyddio dull systemataidd yn rheolaidd ar gyfer monitro, adolygu a diwygio'i gynllun(iau) sefydliadol a'i dargedau a/neu ei ddangosyddion perfformiad.<br><br>Mae'r sefydliad yn gallu cysylltu ei waith â pholisïau lleol a chenedlaethol allweddol, a/neu strategaethau a blaenoriaethau ar gyfer pobl ifanc. |

| | |
|---|---|
| **1.2 Ansawdd ymarfer gwaith ieuenctid** | Mae gweithlu'r sefydliad yn deall anghenion ardaloedd lleol ac anghenion y bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw.<br><br>Mae gweithlu'r sefydliad yn ymgysylltu â phobl ifanc wrth gynllunio a gwerthuso gweithgareddau.<br><br>Mae gweithlu'r sefydliad yn ymgysylltu â phobl ifanc mewn cyfleoedd dysgu ffurfiol a rhai heb fod yn ffurfiol sy'n addysgiadol, yn rymusol, yn gyfranogol, yn gynhwysol ac yn fynegiannol, sy'n ymestyn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.<br><br>Mae gweithlu'r sefydliad yn datblygu perthnasau cadarnhaol gyda phobl ifanc i gynorthwyo a hyrwyddo dysgu a chyflawniad pobl ifanc yn effeithiol. |
| **1.3 Dysgu a datblygiad pobl ifanc** | Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad, mae pobl ifanc yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain ac o'u dysgu.<br><br>Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad, mae pobl ifanc yn datblygu sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol.<br><br>Mae'r sefydliad yn galluogi pobl ifanc i helpu i lywio gweledigaeth a nodau'r sefydliad, ac mae'r pobl ifanc yn rhan o'r gwaith o ddylunio, cynllunio a gwerthuso'r ddarpariaeth er mwyn ateb eu hanghenion. |
| **1.4 Gofynion cyfreithiol** | Mae gan y sefydliad bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau perthnasol, a gall ateb ei ofynion cyfreithiol ac ymarfer diogel.<br><br>Mae gan y sefydliad bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu ac iechyd a diogelwch pobl ifanc, staff a gwirfoddolwyr.<br><br>Mae gweithlu'r sefydliad yn deall ac mae wedi'i hyfforddi a'i baratoi i weithredu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer diogelu, iechyd a diogelwch, a gofynion cyfreithiol eraill.<br><br>Mae'r sefydliad yn monitro ac yn adolygu ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i ganllawiau yn rheolaidd, ac yn defnyddio canlyniadau'r prosesau hyn ar gyfer gwella a newid. |

Mae gan bob un o'r safonau ansawdd 'ddisgrifyddion' cysylltiedig. Er mwyn helpu sefydliadau i ddatblygu hunanasesiad cywir, darperir disgrifyddion gradd ar gyfer pob dangosydd. Bwriedir i'r disgrifyddion gradd gynorthwyo sefydliadau i lunio barn am lefel eu perfformiad presennol. Mae'r disgrifyddion gradd wedi'u nodi isod.

- **Ymarfer da –** Mae perfformiad da at ei gilydd yn y maes hwn. Mae polisïau a chynlluniau'n gyfoes ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae trefniadau gweithio effeithiol sydd o fudd i bobl ifanc.
- **Angen rhywfaint o ddatblygu –** Mae polisïau a chynlluniau'n addas yn gyffredinol, er nad yw'r ymarfer bob amser yn gyson ac nid yw rhai pobl ifanc yn derbyn gwasanaeth o'r un ansawdd ag eraill. Mae rhai bylchau'n bodoli, ac mae'n fwriad gan y rheolwyr/arweinwyr fynd i'r afael â hwy.
- **Angen datblygiad sylweddol –** Nid yw polisïau'n cael eu deall yn eang na'u gweithredu'n gyson. Mae cynlluniau a threfniadau gweithio yn wan yn gyffredinol, gan effeithio'n andwyol ar ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc.

I fod yn gymwys ar gyfer Lefel Efydd y Marc Ansawdd, mae'n rhaid i sefydliad gwblhau hunanasesiad gyda phortffolio o dystiolaeth a chyfranogi mewn proses asesu allanol i ddangos bod gradd 'ymarfer da' wedi'i chyflawni ar gyfer pob dangosydd yn y Lefel Efydd hon.

Mae'r adrannau canlynol yn ymdrin â phob un o Safonau Ansawdd y Lefel Efydd yn eu tro, gan nodi'r dangosyddion a'r disgrifyddion gradd ar gyfer pob un o'r safonau ansawdd ar y Lefel Efydd hon. Maent hefyd yn darparu gwybodaeth ynghylch pa dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer pob un o'r safonau ansawdd, gan gynnwys enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da a fydd yn helpu sefydliadau i farnu a darparu tystiolaeth o lefel eu perfformiad presennol neu ddatblygu hunanasesiad i baratoi ar gyfer ymgeisio am Lefel Efydd y Marc Ansawdd.

## Safon Ansawdd: 1.1 Rheoli perfformiad

*“Disgwylir i sefydliadau gwaith ieuenctid a phawb sy’n ymwneud â gwaith ieuenctid asesu canlyniadau ac effaith a gweithredu systemau ar gyfer cynllunio, monitro a gwerthuso pob agwedd ar eu gwaith gyda phobl ifanc. Dylai sefydliadau a gweithwyr ieuenctid unigol allu defnyddio dulliau hunanasesu i nodi sut mae pobl ifanc yn elwa a myfyrio ar eu hymarfer a’i ddatblygu.*

*Wrth ddatblygu a gwerthuso eu gwaith, dylai darparwyr ystyried y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid, y Safonau Cyfranogi a’r Safonau Gwybodaeth.”*

Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (2018)

Mae’r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar ansawdd systemau’r sefydliad ar gyfer cynllunio, monitro a gwerthuso effaith. Mae disgwyl i’r sefydliad feddu ar:

- weledigaeth ar gyfer ei waith gyda phobl ifanc
- strategaeth neu gynllun(iau), sydd gyda’i gilydd yn disgrifio sut caiff y weledigaeth ar gyfer gwaith y sefydliad gyda phobl ifanc ei chyflawni.

Cydnabyddir y bydd graddfa a chwmpas cynllunio sefydliadol yn amrywio, yn dibynnu ar faint y sefydliad, ystod ei wasanaethau a’r adnoddau sydd ar gael iddo. Ymhlith y bobl allweddol i’w cynnwys wrth gynllunio mae ymddiriedolwyr, rheolwyr, uwch arweinwyr, staff perthnasol a gwirfoddolwyr, pobl ifanc, partneriaid cymunedol, ond nid rhestr derfynol mo hon.

Dylai’r dystiolaeth i ategu’r safon ansawdd hon ddangos:

- sut mae pobl ifanc, a’r gweithlu gyda phartneriaid perthnasol, wedi ymwneud â’r gwaith o ddatblygu’r weledigaeth, y strategaeth a/neu gynllun(iau) ar gyfer y sefydliad
- pa mor dda mae’r gweithlu a phartneriaid perthnasol yn deall eu rôl yng ngweledigaeth, strategaeth a chynllun(iau) y sefydliad
- sut mae strategaeth a chynllun(iau) y sefydliad yn cael eu datblygu, neu wedi cael eu datblygu, a sut maent yn cael eu monitro a’u gwerthuso a sut mae perfformiad yn cael ei reoli

- sut mae cynllun(iau) y sefydliad yn cael ei gysylltu(eu cysylltu), neu wedi cael ei gysylltu(eu cysylltu) â blaenoriaethau, strategaethau a chynlluniau lleol ar gyfer gweithio gyda phobl ifanc a sut mae'n(maent yn) cyfrannu atynt
- sut mae cynllun(iau) y sefydliad yn cael ei gysylltu(eu cysylltu), neu wedi cael ei gysylltu(eu cysylltu) â darparu cynlluniau a strategaethau cenedlaethol a sut mae'n(maent yn) cyfrannu atynt.

## Disgrifyddion gradd

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.1 Rheoli perfformiad – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Mae gan y sefydliad ddatganiad neu weledigaeth sydd wedi'i nodi'n glir ac mae ganddo strategaeth a/neu gynllun(iau) ar gyfer ei waith gyda phobl ifanc.<br><br>Mae cynllun sy'n dangos sut mae'r sefydliad yn mesur effaith ac effeithiolrwydd ei waith gyda phobl ifanc. | Mae'r sefydliad yn gallu dangos (naill ai wyneb yn wyneb neu'n ddigidol) beth mae'n ei wneud, sut mae'n cael ei gyflwyno, pryd mae'n cael ei gyflwyno a ble.<br><br>Mae'r rhanddeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc, y gweithlu a phartneriaid perthnasol, yn deall ac wedi cyfrannu at weledigaeth, strategaeth a chynllun(iau), dangosyddion perfformiad a blaenoriaethau'r sefydliad.<br><br>Mae'r gweithlu'n deall yn llawn eu rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyflwyno cynllun(iau) cyfredol y sefydliad a sut maent yn berthnasol i bobl ifanc. | Mae cynlluniau/dulliau yn eu lle i sicrhau bod pobl ifanc, y gweithlu a phartneriaid perthnasol yn deall ac yn cyfrannu at ddatblygu'r weledigaeth, y strategaethau, y cynlluniau, y dangosyddion perfformiad a'r blaenoriaethau.<br><br>Mae dealltwriaeth anghyson ymysg y gweithlu o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyflawni cynllun/cynlluniau cyfredol y sefydliad. | Nid yw'r sefydliad eto'n ymgynghori fel mater o drefn â rhanddeiliaid, e.e. pobl ifanc, y gweithlu a phartneriaid perthnasol ynglŷn â'i strategaeth, ei gynllun(iau), ei ddangosyddion perfformiad a'i flaenoriaethau.<br><br>Prin yw'r ddealltwriaeth, os oes dealltwriaeth gwbl, ymysg y gweithlu o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth gyflawni cynllun(iau) cyfredol y sefydliad. |

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.1 Rheoli perfformiad – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Mae'r sefydliad yn defnyddio dull systemataidd ar gyfer monitro, adolygu a diwygio'i gynllun(iau) sefydliadol a'i dargedau a/neu ei ddangosyddion perfformiad yn rheolaidd. | Mae proses systemataidd reolaidd ar gyfer monitro, adolygu a diwygio cynllun(iau) y sefydliad | Mae prosesau monitro ac adolygu yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau dull systemataidd mwy rheolaidd. | Mae prosesau monitro, adolygu, rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd yn cael eu datblygu. |
| Mae'r sefydliad yn gallu cysylltu ei waith â pholisïau lleol a chenedlaethol allweddol, a/neu strategaethau a blaenoriaethau ar gyfer pobl ifanc. | Mae'r sefydliad yn ymateb i ac yn cyfrannu at bolisïau a strategaethau lleol a chenedlaethol, gan flaenoriaethu ei waith ar gyfer pobl ifanc, ac mae'n gallu dangos hyblygrwydd a chreadigrwydd wrth wneud hynny.<br><br>Mae'r sefydliad yn gallu dangos cysylltiadau â threfniadau lleol a chenedlaethol ar gyfer darparu gwasanaethau i bobl ifanc. | Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod y sefydliad yn ymateb i ac yn cyfrannu at bolisïau, strategaethau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol allweddol ar gyfer pobl ifanc.<br><br>Mae rhai cysylltiadau rhwng y modd mae'r sefydliad yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc a pholisïau, strategaethau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol allweddol ar gyfer pobl ifanc. | Mae'r sefydliad eto i nodi sut y bydd yn ymateb i ac yn cyfrannu at bolisïau, strategaethau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol allweddol ar gyfer pobl ifanc.<br><br>Prin yw'r cysylltiadau, os oes rhai o gwbl, rhwng y modd mae'r sefydliad yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc a pholisïau, strategaethau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol allweddol ar gyfer pobl ifanc. |

## Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Gweledigaeth, datganiad cenhadaeth, strategaeth neu gynlluniau ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc.
- Cynllun darpariaeth a/neu gyflwyno/cynllun busnes/cynllun(iau) gweithredol.
- Enghreifftiau o ymgynghori ac ymgysylltu â phobl ifanc, y gweithlu, partneriaid a rhanddeiliaid eraill wrth ddatblygu gweledigaeth, datganiad cenhadaeth a/neu strategaeth a chynllun(iau) y sefydliad.
- Tystiolaeth bod y gweithlu'n datblygu dealltwriaeth o gyflwyno'i ddarpariaeth/cynllun(iau) darparu, e.e. drwy gynadleddau, hyfforddiant, cyfarfodydd tîm, cytundebau gwirfoddolwyr, recordiadau goruchwylio a chofnodion arfarnu, cynlluniau datblygu staff y gwasanaeth, disgrifiadau swydd, rhaglenni clybiau.
- Tystiolaeth o fonitro perfformiad ac ansawdd, e.e. adroddiadau, cyfarfodydd, ymweliadau sicrhau ansawdd â'r ddarpariaeth.
- Enghreifftiau o osod targedau a monitro perfformiad yn erbyn dangosyddion lleol a chenedlaethol ar lefel briodol, e.e. ar draws yr awdurdod, yr ardal leol, y sefydliad, yr uned neu'r prosiect.
- Enghreifftiau o sut mae'r sefydliad yn mesur effaith ei waith ar wella canlyniadau pobl ifanc, e.e. astudiaethau achos unigol, cydnabyddiaeth gan gyrff dyfarnu, ac ati. Gallai hyn hefyd gynnwys cyflwyniadau a dathliadau o geisiadau am Wobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid, cyflwyniadau Dug Caeredin, gwobrau gwirfoddolwyr, ac ati.
- Tystiolaeth o sut mae'r cynllun yn cysylltu â chyflawni, ac yn cyfrannu at gyflawni, cynlluniau a strategaethau cenedlaethol, megis:
  - Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019)
  - Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (2013) neu fersiynau diweddarach o'r fframwaith
  - y canllawiau statudol i awdurdodau lleol ddarparu a hyrwyddo cyfranogiad plant a phobl ifanc o dan adran 12 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
  - Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr
  - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
  - cysylltiadau i flaenoriaethau, strategaethau a chynllun(iau) lleol ar gyfer gwaith gyda phobl ifanc, e.e. y strategaeth lesiant leol, y blaenoriaethau yn y cynllun ymgysylltu a datblygu ieuenctid lleol
  - cysylltiadau a phartneriaeth neu gytundebau darparu a gwasanaeth gyda sefydliadau partner
  - cysylltiadau â rhwydweithiau lleol, e.e. fforymau gwirfoddolwyr neu ymarferwyr, grwpiau rhyngasiantaethol a chymunedau lleol.

## Safon Ansawdd: 1.2 Ansawdd ymarfer gwaith ieuenctid

Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn nodi gweledigaeth am waith ieuenctid yng Nghymru lle:

*Mae Cymru'n wlad lle mae:*

- *pob person ifanc yn ffynnu, ac yn cael mynediad at gyfleoedd a phrofiadau, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n rhoi mwynhad ac yn cyfoethogi eu datblygiad personol drwy waith ieuenctid*
- *gwaith ieuenctid yn seiliedig ar hawliau, yn cael ei arwain gan bobl ifanc, ac yn cael ei gynllunio a'i gefnogi ar y cyd gan weithlu medrus o wirfoddolwyr a gweithwyr proffesiynol sy'n cael eu talu*
- *pobl yn deall gwerth gwaith ieuenctid, â llinellau atebolrwydd clir*

Mae'r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar sgiliau gweithwyr ieuenctid ac ansawdd ymarfer gwaith ieuenctid mewn lleoliadau wyneb yn wyneb neu'n ddigidol. Mae disgwyliad bod pobl ifanc yn cymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu anffurfiol a rhai heb fod yn ffurfiol sy'n addysgiadol, yn rymusol, yn gyfranogol, yn gynhwysol ac yn fynegiannol, gan ymestyn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

Rydym am sicrhau bod gwerthoedd Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion a gweledigaeth *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru* yn bresennol ble bynnag mae gwaith ieuenctid yn digwydd. Dylai pob sefydliad gwaith ieuenctid weithio i sicrhau bod pobl ifanc:

- yn cael mynediad at gyfleoedd sy'n gwella dysgu anffurfiol, ac yn cynorthwyo ymgysylltiad â phrofiadau dysgu cymdeithasol, rhai heb fod yn ffurfiol a rhai mwy strwythuredig, drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg – a thrwy'r rhain byddant yn meithrin perthnasau iach, yn osgoi arwahanrwydd ac unigrwydd, yn datblygu gallu cymdeithasol ac emosiynol, annibyniaeth, hunanreolaeth, hyder a chadernid
- yn cael mynediad at fannau diogel lle maent yn teimlo bod croeso iddynt, lle maent yn cael hwyl, yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi, beth bynnag eu cefndir neu eu cyd-destun personol
- yn cyfranogi wrth ddatblygu'r cyfleoedd hyn a'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a chael mynediad at weithdrefnau sy'n eu galluogi i gwestiynu a herio'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau – dylai fod partneriaethau ystyrlon gyda phobl ifanc i wneud hyn yn realiti
- yn cael budd o berthnasau gydag oedolion y gellir ymddiried ynddynt a chyfoedion i lywio ac archwilio profiadau newydd

- yn deall eu hawliau ac yn gallu eu defnyddio, gan gynnwys eu hawl i gael mynediad at wybodaeth gynhwysfawr, wrthrychol, ddealladwy a dibynadwy am eu holl gwestiynau a'u hanghenion
- yn deall ac yn dathlu amrywiaeth, ar bob ffurf, a'u bod yn datblygu ymdeimlad cryf a modern o hunaniaeth a chymuned Gymreig.

Bydd asesiad y safon ansawdd hon yn cynnwys:

- nifer fach o ymweliadau â darpariaeth gwaith ieuenctid a gynigir gan y sefydliad, y gellid ymgymryd â rhai ohonynt yn ddigidol
- adolygiad o'r technolegau digidol a ddefnyddir wrth ddarparu gwaith ieuenctid
- grwpiau ffocws gyda phobl ifanc i asesu cywirdeb prosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad
- grwpiau ffocws gydag aelodau'r gweithlu i asesu cywirdeb prosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos:

- pa mor dda mae gweithlu'r sefydliad yn deall anghenion yr ardal leol a'r bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw
- pa mor dda mae'r gweithwyr ieuenctid yn cynnwys pobl ifanc wrth gynllunio a gwerthuso rhaglenni a gweithgareddau sy'n hoelio brwdfrydedd pobl ifanc ac yn ateb eu hanghenion
- pa mor dda mae'r tîm staff yn gweithio gyda phobl ifanc i hwyluso'u datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol
- perthnasau a gaiff eu creu gyda phobl ifanc sydd wedi'u seilio'n bennaf ar ymgysylltu gwirfoddol a chydymddiriedaeth.

## Disgrifyddion gradd

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.2 Ansawdd ymarfer gwaith ieuenctid – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Mae gweithlu'r sefydliad yn deall anghenion ardaloedd lleol ac anghenion y bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw. | Mae'r gweithlu'n deall sut y mae eu rôl yn ymwneud ag anghenion yr ardal leol ac anghenion y bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw.<br><br>Mae'r gweithlu'n cymryd dysgu sgiliau a gwybodaeth newydd i ystyriaeth i ateb anghenion pobl ifanc.<br><br>Mae anghenion yr ardal leol wedi'u hasesu'n systemataidd ac aethpwyd i'r afael â nhw mewn gwaith ymgysylltu â phobl ifanc, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol.<br><br>Mae gweithgareddau gwaith ieuenctid a gweithgareddau dysgu'n mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc ac yn eu hateb, gan gynnwys defnyddio llwyfannau cyfryngau digidol a chyfleoedd dysgu cyfunol. | Mae'r gweithlu'n gwybod beth yw anghenion yr ardal leol a'r bobl ifanc maent yn gweithio gyda nhw, ond prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod anghenion yn cael eu hasesu gan ddefnyddio gwybodaeth a data.<br><br>Mae cynlluniau i wella'r cysylltiad rhwng anghenion yr ardal leol a rhaglenni a gweithgareddau gwaith ieuenctid.<br><br>Mae pobl ifanc yn cael eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol a ffynonellau cymorth. | Lefelau isel o ymwybyddiaeth sydd ymysg y gweithlu o anghenion yr ardal leol ac anghenion pobl ifanc sy'n mynychu'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid.<br><br>Nid yw'r rhaglenni a'r gweithgareddau wedi'u cysylltu'n dda ag anghenion pob ifanc. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau cymorth arbenigol a ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chanllawiau. | | |

| **Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.2 Ansawdd ymarfer gwaith ieuenctid – Disgrifyddion gradd** | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Mae gweithlu'r sefydliad yn ymgysylltu â phobl ifanc wrth gynllunio a gwerthuso gweithgareddau.<br><br>Mae gweithlu'r sefydliad yn ymgysylltu â phobl ifanc mewn cyfleoedd dysgu anffurfiol a rhai heb fod yn ffurfiol sy'n addysgiadol, yn rymusol, yn gyfranogol, yn gynhwysol ac yn fynegiannol, gan ymestyn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth. | Mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys fel mater o drefn yng ngwaith cynllunio a gwerthuso'r sefydliad.<br><br>Mae'r gweithlu'n ymgysylltu â phobl ifanc ac yn eu cynnwys fel mater o drefn wrth gynllunio rhaglenni heriol sy'n ennyn brwdfrydedd pobl ifanc gan arwain at eu dysgu a'u cyflawniad.<br><br>Mae'r sefydliad yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i sicrhau cyfranogiad pobl ifanc wrth gynllunio a gwerthuso gwaith ieuenctid, gan gynnwys llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, dulliau cyfathrebu sgiliau digidol a gwasanaethau technoleg gwybodaeth. | Mae enghreifftiau o gynnwys pobl ifanc wrth gynllunio a gwerthuso'r sefydliad.<br><br>Nid yw ymdrechion y sefydliad i gynnwys pobl ifanc bob amser yn effeithiol.<br><br>Ystod gyfyngedig o ddulliau sydd i gynnwys pobl ifanc wrth gynllunio a gwerthuso eu dysgu a'u cyflawniad.<br><br>Nid yw pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo'n gyson i drosglwyddo'u dysgu yn sgil ymgysylltu â gwaith ieuenctid i agweddau eraill ar eu bywydau. | Prin yw'r dystiolaeth, os oes tystiolaeth o gwbl, bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth gynllunio a/neu wrth werthuso'u gweithgareddau a'u cyfleoedd dysgu.<br><br>Mae gwaith cynllunio a gwerthuso'n canolbwyntio ar weithgareddau hamdden nad ydynt yn darparu cwmpas digonol ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i drosglwyddo'u dysgu yn sgil ymgysylltu â gwaith ieuenctid i agweddau eraill ar eu bywydau. | | |

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.2 Ansawdd ymarfer gwaith ieuenctid – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Mae gweithlu'r sefydliad yn datblygu perthnasau cadarnhaol gyda phobl ifanc i gynorthwyo a hyrwyddo dysgu a chyflawniad pobl ifanc yn effeithiol. | Mae'r gweithlu'n sefydlu ac yn cynnal perthnasau cadarnhaol gyda phobl ifanc.<br><br>Mae'r gweithlu'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ddatblygu ymddiriedaeth a chynnwys pobl ifanc mewn gweithgareddau a rhaglenni dysgu pleserus a heriol.<br><br>Mae pobl ifanc yn cael eu cynnwys fel mater o drefn wrth drafod rheolau sylfaenol a chodau ymddygiad.<br><br>Eir i'r afael yn gyson ag iaith neu ymddygiad amhriodol. Gorfodir cod ymddygiad. | Mae'r gweithlu'n sefydlu perthnasau cadarnhaol gyda phobl ifanc, ond nid yw bob amser yn eu cynorthwyo i gyfranogi'n llawn mewn gweithgareddau a rhaglenni dysgu heriol.<br><br>Mae ymwneud pobl ifanc wrth drafod rheolau sylfaenol a chodau ymddygiad clwb/rhaglen/gweithgaredd yn anghyson.<br><br>Nid eir i'r afael yn gyson ag iaith neu ymddygiad amhriodol.<br><br>Mae pobl ifanc yn cael mynediad at gymorth, cyngor, gwybodaeth a chanllawiau ond nid ydynt yn manteisio ar y cyfleoedd hyn fel mater o drefn. | Mae'r gweithlu'n sefydlu perthnasau cadarnhaol gyda phobl ifanc, ond nid yw'n eu cynorthwyo fel mater o drefn i gyfranogi mewn gweithgareddau neu raglenni dysgu heriol.<br><br>Mae pobl ifanc eto i gael eu cynnwys wrth drafod rheolau sylfaenol a chodau ymddygiad.<br><br>Mae cymorth i bobl ifanc gael mynediad at gyngor, gwybodaeth a chanllawiau yn anghyson. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae pobl ifanc yn manteisio ar gyfleoedd i gael cyngor, gwybodaeth, cefnogaeth neu ganllawiau. | | |

## Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Tystiolaeth o adroddiadau sicrhau ansawdd mewnol ac arsylwadau o ymarfer y sefydliad.
- Tystiolaeth o bortffolios neu ddyddiaduron dysgu personol pobl ifanc neu o werthusiadau o raglenni neu brosiectau gwaith ieuenctid, e.e. tystlythyrau personol, datganiadau tyst a/neu broffiliau cymunedol.
- Asesiad o anghenion pobl ifanc ac adroddiadau ar ddadansoddiadau o anghenion, gwybodaeth a nodweddion yr ardal(oedd) y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddi(ynddynt).
- Dadansoddiad o ddata a gwybodaeth arall ar anghenion lleol a sut mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ffurfio darpariaeth neu weithgareddau darparu/cynllun(iau) busnes y sefydliad, a rhaglenni gwaith ieuenctid, proffiliau ac adnoddau cynllunio.
- Tystiolaeth o sut mae rhaglenni a phrosiectau'n mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc ac yn ymateb iddynt.
- Enghreifftiau o sut mae'r sefydliad yn mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc ac yn eu cynorthwyo i gyflawni canlyniadau gwell.
- Cynlluniau sesiynau a gwerthusiadau.
- Cynlluniau prosiectau a gwerthusiadau.
- Tystiolaeth o ddysgu pobl ifanc, e.e. portffolios neu enghreifftiau o ddysgu cofnodedig.
- Gwerthusiadau pobl ifanc o brosiectau, rhaglenni a digwyddiadau sy'n arddangos eu dysgu.
- Tystiolaeth o gyfraniad uniongyrchol pobl ifanc i'r gwaith o gynllunio, gwerthuso ac ymwneud parhaus yn y broses o oruchwylio'r agweddau amrywiol ar brosiectau gwaith ieuenctid a'r ddarpariaeth gwaith ieuenctid.
- Trafodaethau gyda phobl ifanc, y gweithlu a rheolwyr.
- Codau ymddygiad neu reolau sylfaenol.
- Tystiolaeth bod pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau arbenigol neu ffynonellau cymorth.
- Tystiolaeth bod pobl ifanc yn elwa ar gyngor, gwybodaeth a chanllawiau.
- Tystiolaeth bod pobl ifanc yn trosglwyddo'r dysgu a gafwyd drwy ymgysylltu â gwaith ieuenctid i agweddau eraill ar eu bywydau, e.e. perthnasau â'u teuluoedd, rhieni a gofalwyr, a'u hymgysylltiad ag addysg ffurfiol, cyflogaeth a hyfforddiant.

## Safon Ansawdd: 1.3 Dysgu a datblygiad pobl ifanc

Mae addysg yn un o’r pum piler sy’n sail i waith ieuenctid yng Nghymru. Mae Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion yn diffinio ymarfer addysgol fel:

> "*Galluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth, agweddau a gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer eu datblygiad a’u boddhad personol eu hunain a chyfrannu at gymdeithas fel aelodau o grwpiau a chymunedau, yn lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.*"

Yn ogystal, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) yn datgan bod:

> “*gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau”*

ac y dylai

> “*addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn i’r eithaf*.” [1]

Mae gwaith ieuenctid o ansawdd uchel yn darparu lle a chyfleoedd i bobl ifanc ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau ac mae’n eu cynorthwyo i ddatblygu eu personoliaethau a’u doniau.

Mae’r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar ba mor dda mae’r sefydliad yn cynorthwyo pobl ifanc i ymestyn eu gwybodaeth, eu sgiliau a’u dealltwriaeth a pha mor dda mae’r sefydliad yn hwyluso datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol pobl ifanc i’w galluogi i gyrraedd eu potensial llawn a gwella eu cyfleoedd bywyd.

[1] Mae darparu gwasanaethau ieuenctid yn darparu mecanwaith pwerus i ymgysylltu â phobl ifanc a gwrando arnynt. Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn atgyfnerthu ac yn adeiladu ar ddull Llywodraeth Cymru sydd wedi’i seilio ar hawliau o lunio polisi ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae’n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i hawliau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP) wrth wneud penderfyniadau am bolisïau neu ddeddfwriaeth arfaethedig newydd neu wrth adolygu neu newid polisïau sy’n bodoli eisoes. O 1 Mai 2014, mae’n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i hawliau’r CCUHP pryd bynnag y byddant yn defnyddio unrhyw rai o’u grymoedd neu eu dyletswyddau cyfreithiol.

Bydd asesiad y safon ansawdd hon yn cynnwys:

- nifer fach o ymweliadau â darpariaethau gwaith ieuenctid a gynigir gan y sefydliad, y gellid ymgymryd â rhai ohonynt yn ddigidol
- adolygiad o dechnolegau digidol a ddefnyddir wrth gyflwyno gwaith ieuenctid
- grwpiau ffocws gyda phobl ifanc i asesu cywirdeb prosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad
- grwpiau ffocws gydag aelodau o'r gweithlu i asesu cywirdeb prosesau sicrhau ansawdd mewnol y sefydliad.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos:

- pa mor dda mae pobl ifanc yn datblygu ac yn ymestyn eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth
- pa mor dda maent yn datblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol
- sut mae eu dysgu yn sgil ymwneud â gwaith ieuenctid yn cael ei drosglwyddo i agweddau eraill ar eu bywydau
- pa mor dda maent yn cyfranogi mewn dysgu heb fod yn ffurfiol.

Gallai mewnbwn pobl ifanc i gynlluniau, tystiolaeth o'u dysgu, eu gwaith yn gwerthuso sesiynau a phrosiectau, a'u portffolios ar gyfer dyfarniadau achrededig ddarparu tystiolaeth dda ar gyfer y safon ansawdd hon.

## Disgrifyddion gradd

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.3 Dysgu a datblygiad pobl ifanc – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad, mae pobl ifanc yn datblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ohonyn nhw eu hunain ac o'u dysgu. | Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad, mae'r sefydliad yn gallu dangos bod pobl ifanc wedi dysgu, cyflawni a gwneud cynnydd yn bersonol ac yn gymdeithasol a/neu wedi gallu symud ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.<br><br>Mae pobl ifanc yn gallu myfyrio ar eu cyflawniadau a disgrifio'r hyn maent wedi'i ddysgu a pha fudd maent wedi'i gael.<br><br>Mae dysgu pobl ifanc yn cael ei werthuso, ei gofnodi, ei achredu lle bo hynny'n bosibl a'i ddathlu yn briodol.<br><br>Mae'r sefydliad yn gallu dathlu a chofnodi dysgu pobl ifanc gan ddefnyddio ystod o ddulliau. | Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid, mae gallu'r sefydliad i ddangos dysgu, cyflawniad a chynnydd pobl ifanc yn anghyson.<br><br>Mae anghysondeb o ran gallu pobl ifanc i fyfyrio ar eu cyflawniadau a disgrifio'r hyn maent wedi'i ddysgu.<br><br>Ar draws y sefydliad mae anghysondebau o ran i ba raddau y caiff dysgu pobl ifanc ei werthuso, ei gofnodi, ei achredu a'i ddathlu. | Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid, prin yw'r dystiolaeth o ddysgu, cyflawniad a chynnydd pobl ifanc.<br><br>Ychydig iawn o bobl ifanc sy'n gallu myfyrio ar eu cyflawniadau a disgrifio'r hyn maent wedi'i ddysgu.<br><br>Ar draws y sefydliad mae i ba raddau mae dysgu pobl ifanc yn cael ei werthuso, ei gofnodi, ei achredu a'i ddathlu, yn gyfyngedig.<br><br>Mae strategaethau i wella ymgysylltiad pobl ifanc â darpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad yn cael eu hystyried. |

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.3 Dysgu a datblygiad pobl ifanc – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad, mae pobl ifanc yn datblygu sgiliau personol, cymdeithasol ac emosiynol. | Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid, mae'r sefydliad yn gallu dangos datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc.<br><br>Defnyddir ystod o adnoddau a thystiolaeth ar draws y sefydliad a fydd yn dangos bod pobl ifanc yn:<br>• cyfathrebu'n dda<br>• gweithio'n dda mewn grwpiau a thimau<br>• sensitif ac yn barchus yn eu perthnasau.<br><br>Mae pobl ifanc yn dangos mentergarwch ac yn derbyn cyfrifoldeb am eu dewisiadau a'u gweithredoedd.<br><br>Mae pobl ifanc yn trosglwyddo'r dysgu a gafwyd yn sgil eu hymgysylltiad â gwaith ieuenctid i agweddau eraill ar eu bywydau.<br><br>Mae pobl ifanc yn gallu dangos gwell hyder a chadernid. | Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad, mae tystiolaeth anghyson o ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc.<br><br>Mae'r sefydliad yn gallu darparu rhai enghreifftiau o bobl ifanc yn datblygu sgiliau cyfathrebu, gwaith tîm a pherthnasau.<br><br>Mae pobl ifanc wedi'u cymell ond nid ydynt bob amser yn derbyn cyfrifoldeb am eu dewisiadau a'u gweithredoedd. | Yn dilyn ymgysylltu â darpariaeth gwaith ieuenctid y sefydliad, prin yw'r dystiolaeth o ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc. |

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.3 Dysgu a datblygiad pobl ifanc – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Mae’r sefydliad yn galluogi pobl ifanc i helpu i lywio gweledigaeth a nodau’r sefydliad, ac mae’r pobl ifanc yn rhan o’r gwaith o ddylunio, cynllunio a gwerthuso’r ddarpariaeth er mwyn ateb eu hanghenion. | Mae pobl ifanc yn cymryd rhan wrth osod nodau fel unigolion ac mewn grwpiau.<br><br>Mae pobl ifanc yn derbyn cyfrifoldeb dros gynllunio, trefnu ac arwain rhaglenni a gweithgareddau, gyda chymorth gan weithwyr ieuenctid.<br><br>Mae pobl ifanc yn ymgysylltu’n llawn wrth werthuso’u dysgu, eu cyflawniad a’u cynnydd.<br><br>Mae’r sefydliad yn gallu dangos bod pobl ifanc yn cyfranogi’n effeithiol mewn cyfleoedd dysgu ffurfiol a rhai heb fod yn ffurfiol. | Nid yw pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn gyson wrth osod eu nodau a’u targedau eu hunain.<br><br>Mae’r gweithlu’n aml yn cymryd yr awenau dros gynllunio a darparu rhaglenni a gweithgareddau.<br><br>Ymgynghorir â phobl ifanc am weithgareddau a rhaglenni ond maent eto i ddatblygu’r sgiliau i arwain ar brosiectau a gweithgareddau gyda chymorth gan weithwyr ieuenctid.<br><br>Nid yw’r gwerthuso bob amser yn canolbwyntio’n effeithiol ar ddysgu a chyflawniad pobl ifanc. | Prin yw ymwneud pobl ifanc wrth osod nodau fel unigolion a grwpiau.<br><br>Prin yw ymwneud pobl ifanc wrth gynllunio neu werthuso rhaglenni a gweithgareddau gwaith ieuenctid. |

## Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Cynlluniau a gwerthusiadau sesiynau.
- Tystiolaeth o ddysgu pobl ifanc, e.e. portffolios neu enghreifftiau o ddysgu cofnodedig.
- Tystiolaeth o bobl ifanc yn cyflawni cymwysterau a dyfarniadau a gydnabyddir yn genedlaethol.
- Tystiolaeth o newidiadau a gwelliannau i raglenni a'r ddarpariaeth o ganlyniad i ymwneud pobl ifanc.
- Arolygon defnyddwyr a rhai nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth a thystiolaeth o sut mae'r rhain wedi arwain at newid a gwelliant.
- Cofnodion presenoldeb sy'n dangos ymwneud pobl ifanc â'r prosiect dros amser.
- Astudiaethau achos.
- Enghreifftiau o bobl ifanc yn ymgysylltu â dysgu cofnodedig ac achrededig.
- Cynlluniau prosiectau a gwerthusiadau sy'n dangos cysylltiad pobl ifanc, eu datblygiad personol a'u dysgu.
- Tystiolaeth o gyfraniad parhaus pobl ifanc i gynllunio a gwerthuso.
- Trafodaethau gyda phobl ifanc, y gweithlu a rheolwyr.
- Arddangosiadau ac arddangosfeydd o waith pobl ifanc.
- Deunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo.
- Canlyniadau gweithdrefnau mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith wyneb yn wyneb a gwaith digidol â phobl ifanc.

## Safon Ansawdd: 1.4 Gofynion cyfreithiol

Mae'r safon ansawdd hon yn canolbwyntio ar sut y darperir amgylchedd gwaith diogel ac iach ar gyfer pobl ifanc, y gweithlu a defnyddwyr eraill, a sut mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau'n sicrhau bod gofynion cyfreithiol yn cael eu hateb. Rhaid cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol ar gyfer diogelu ym mhob lleoliad gwaith ieuenctid.

Yn dibynnu ar yr sefydliad, gallai ystod y polisïau amrywio. Disgwylir bod gan sefydliadau bolisïau ar gyfer diogelu, iechyd a diogelwch, cyfle cyfartal/amrywiaeth, diogelu data, gweithgareddau oddi ar y safle, teithiau ac ymweliadau, clod a chwynion.

Dylai'r dystiolaeth i ategu'r safon ansawdd hon ddangos bod:

- polisïau'n cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfoes o ran newidiadau mewn gofynion cyfreithiol
- rheolwyr yn goruchwylio bod polisïau, gweithdrefnau a phrosesau'r sefydliad ar gyfer diogelu yn cael eu gweithredu'n effeithiol a bod pobl ifanc yn ddiogel
- newidiadau i bolisïau neu weithdrefn(au) yn cael eu cyfathrebu i staff a gwirfoddolwyr
- y sefydliad yn ymwybodol o ofynion diogelu data ac yn dilyn canllawiau ar Reoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)
- gan y sefydliad y modd o sicrhau bod pobl ifanc yn rhoi cydsyniad i ddata personol a delweddau gael eu defnyddio, a'u bod yn deall sut caiff yr wybodaeth honno ei recordio neu ei dal
- pobl ifanc, lle y bo'n briodol, yn rhan o'r gwaith o adolygu polisi neu weithdrefn
- y gweithlu wedi'i hyfforddi'n dda ac yn deall gofynion cyfreithiol, yn arbennig y rhai hynny ar gyfer diogelu ac iechyd a diogelwch, a bod polisïau penodol sy'n berthnasol i waith gyda phobl ifanc yn cael eu nodi, eu datblygu neu eu mabwysiadu a'u cymhwyso mewn modd cyson.

## Disgrifyddion gradd

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.4 Gofynion cyfreithiol – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Mae gan y sefydliad bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau perthnasol, a gall ateb ei ofynion cyfreithiol ac ymarfer diogel.<br><br>Mae gan y sefydliad bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu ac iechyd a diogelwch pobl ifanc, staff a gwirfoddolwyr. | Mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cyfoes sy'n sicrhau bod gofynion cyfreithiol yn cael eu hateb.<br><br>Mae gofynion cyfreithiol ar gyfer diogelu pobl ifanc a darparu amgylchedd iach a diogel yn cael eu hateb. | Mae polisïau yn eu lle ond nid yw'r sefydliad eto wedi datblygu gweithdrefnau a chanllawiau llawn i sicrhau bod gofynion cyfreithiol yn cael eu hateb.<br><br>Mae gofynion cyfreithiol ar gyfer diogelu pobl ifanc a darparu amgylchedd iach a diogel yn cael eu hateb. | Mae polisïau yn eu lle ond prin yw'r dystiolaeth o weithdrefnau a chanllawiau i sicrhau bod gofynion cyfreithiol yn cael eu hateb. |

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.4 Gofynion cyfreithiol – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Mae gweithlu'r sefydliad yn deall ac mae wedi'i hyfforddi a'i baratoi i weithredu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer diogelu, iechyd a diogelwch, a gofynion cyfreithiol eraill. | Mae gan y gweithlu a phobl ifanc fynediad hwylus at bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau.<br><br>Mae pobl ifanc yn ymwybodol o'r canllawiau neu brotocolau ar gyfer gwneud datgeliadau a/neu adrodd am fwlio.<br><br>Mae pobl ifanc yn gwybod sut i adrodd wrth arweinwyr am faterion sy'n effeithio ar eu mwynhad o'r ddarpariaeth a/neu'r gweithgareddau.<br><br>Mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn cael eu hyrwyddo a'u cyfathrebu'n effeithiol ar draws y sefydliad.<br><br>Mae'r gweithlu a phobl ifanc, lle bo'n briodol, wedi'u hyfforddi i weithredu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau.<br><br>Mae'r gweithlu'n deall ac yn gallu gweithredu polisïau a gweithdrefnau. | Mae gan y gweithlu fynediad at bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau.<br><br>Mae hyfforddiant yn cael ei gynnal ac mae cynlluniau i alluogi'r gweithlu i ddeall a gweithredu polisïau a gweithdrefnau yn gyson. | Mae dealltwriaeth a gallu'r gweithlu i weithredu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn anghyson.<br><br>Mae hyfforddiant a hyrwyddo polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau eto i'w hystyried neu'n cael eu datblygu. |

| Safon Ansawdd Lefel Efydd 1.4 Gofynion cyfreithiol – Disgrifyddion gradd | | | |
|---|---|---|---|
| **Dangosyddion** | **Ymarfer da** | **Angen rhywfaint o ddatblygu** | **Angen datblygiad sylweddol** |
| Mae'r sefydliad yn monitro ac yn adolygu ei bolisïau, ei weithdrefnau a'i ganllawiau yn rheolaidd, ac yn defnyddio canlyniadau'r prosesau hyn ar gyfer gwella a newid. | Mae monitro rheolaidd yn cael ei ddefnyddio i asesu pa mor dda mae polisi a gweithdrefnau'n cael eu gweithredu.<br><br>Mae'r canlyniadau yn sgil monitro rheolaidd yn arwain at welliant a newid.<br><br>Mae'r gweithlu a phobl ifanc yn gysylltiedig wrth adolygu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau. | Mae gweithdrefnau monitro ac adolygu yn eu lle ond nid yw'r canlyniadau'n cael eu defnyddio fel mater o drefn i lywio newid a gwelliant.<br><br>Mae camau ar y gweill i sicrhau bod canlyniadau monitro'n arwain at newid a gwelliant. | Nid yw gweithdrefnau monitro ac adolygu yn cael eu cymhwyso mewn modd cyson. |

## Enghreifftiau o dystiolaeth ac ymarfer da

- Gall y sefydliad ddangos ei fod yn cydymffurfio â gofynion statudol a chanllawiau y llywodraeth sy'n benodol i'w waith gyda phobl ifanc, e.e. drwy dystiolaeth ar ffurf tystysgrifau cydymffurfiaeth, cofnodion cyfarfodydd, cofnodion hyfforddi, llythyrau gan awdurdodau.
- Mae polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau y sefydliad, yn enwedig y rhai ar gyfer diogelu ac iechyd a diogelwch, yn gyfoes, e.e. drwy dystiolaeth ar ffurf nodyn neu gofnodion pan fo adolygiad wedi bod, mae polisïau a gweithdrefnau'n nodi dyddiad, mae cofnodion hyfforddiant am godi ymwybyddiaeth staff am newid polisi.
- Mae staff a gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi ac yn ymwybodol sut i gael mynediad at bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau, e.e. cofnodion hyfforddi, contractau gwirfoddolwyr, disgrifiadau swydd, cofnodion goruchwylio.
- Amserlen ar gyfer diweddaru polisïau a gweithdrefnau.
- Monitro effeithiolrwydd polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau.
- Cynlluniau gweithredu i wella polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau yn cael eu gweithredu.

- Dulliau o gyfathrebu newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau, e.e. cofnodion cyfarfodydd, e-byst, portholion TG staff.
- Cofnodion cyfarfodydd sy’n dangos bod polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau’n cael eu hadolygu a’u diweddaru.
- Adroddiadau a thystiolaeth yn dilyn ymweliadau monitro.
- Hyfforddiant i’r gweithlu ar weithredu polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau.
- Trwyddedau, caniatâd a chymeradwyaeth gydnabyddedig a chymeradwy.

## Crynodeb a'r camau nesaf

Ar ôl darllen y ddogfen hon, dylai sefydliadau fod yn gyfarwydd bellach â'r safonau ansawdd, y dangosyddion a'r disgrifyddion gradd ar gyfer Lefel Efydd y Marc Ansawdd. Gallai sefydliadau fod wedi defnyddio'r Safonau Ansawdd Lefel Efydd yma fel adnodd ar gyfer gwella ansawdd ac effaith eu darpariaeth gwaith ieuenctid neu i lywio'r broses o ddatblygu hunanasesiad a thystiolaeth gysylltiedig i ymgeisio am Lefel Efydd y Marc Ansawdd

Os ydych yn teimlo'ch bod yn barod i ymgysylltu â'r Marc Ansawdd, neu os hoffech wybod mwy, gallwch naill ai siarad â'r contractiwr presennol, neu gysylltu â'r Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid a fydd yn trosglwyddo'ch manylion ymlaen atynt. Gellir cysylltu â'r Gangen Ymgysylltu ag Ieuenctid drwy e-bostio gwaithieuenctid@llyw.cymru.